# Cyngor Bro Morgannwg

## Arolwg Boddhad Tenantiaid 2025 - Cwestiynau Cyffredin

**C Beth yw'r arolwg?**

Mae gwasanaeth tai'r Cyngor yn cynnal ei arolwg boddhad tenantiaid 2025. Mae hyn yn cael ei wneud ar ein rhan gan ARP Research. Mae'r arolwg hwn i'w gynnal o leiaf bob dwy flynedd ac mae'n seiliedig ar arolwg safonol gan Lywodraeth Cymru, sy'n cael ei ddefnyddio gan landlordiaid eraill ledled Cymru i fesur boddhad a chymharu â'i gilydd.

Bydd pob cartref yn derbyn arolwg papur ddiwedd mis Chwefror 2025, ac yna holiadur llawn arall ym mis Mawrth i'r rhai nad ydynt yn ymateb i ddechrau. Yn ogystal, lle mae'r Cyngor yn cadw manylion cyswllt, bydd y grŵp hwn hefyd yn derbyn gwahoddiadau / negeseuon atgoffa i arolwg ar-lein trwy e-bost ac o bosibl trwy neges destun.

Bydd e-byst yn dod o 'Arolwg Tai Bro Morgannwg' (noreply-valeofglamorgan@arpsurveys.co.uk).

Bydd unrhyw negeseuon testun yn cael eu hanfon yn uniongyrchol gan ARP Research a byddant yn dod o 07860 017314.

**C. Pam ydych chi'n gwneud yr arolwg hwn?**

Rydym eisiau gwybod sut rydych chi'n teimlo am y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu a byddwn ni'n defnyddio'r canlyniadau i gynllunio gwelliannau i'r gwasanaethau. Rydym yn cynnal yr arolwg bob dwy flynedd o leiaf ac yn gofyn cwestiynau tebyg fel y gallwn hefyd weld a ydym yn gwella a gweithredu os nad ydym yn gwneud hynny. Hefyd mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ni wneud yr arolwg hwn.

**C. Sut ydw i'n cymryd rhan yn y raffl wobrau?**

Yn syml, dychwelwch yr holiadur yn yr amlen rhadbost a bydd eich cod cyfrinachol unigryw yn cael ei gofnodi'n awtomatig yn y raffl i ennill talebau siopa gwerth £150. Mae'r cod hwn wedi'i argraffu ar y copïau papur, a gall ymatebwyr ar-lein ei gysylltu â'u cyfeiriad e-bost. Gallwch optio allan o'r raffl wobr trwy flwch ticio ar yr holiadur.

**C. Dydw i ddim eisiau cymryd rhan, tynnwch fi oddi ar eich rhestr**

Nodwch yr enw a'r cyfeiriad, a'u hanfon at support@arp-research.co.uk

Mae unrhyw negeseuon e-bost hefyd yn cynnwys dolen i ddad-danysgrifio os nad yw tenantiaid eisiau derbyn unrhyw negeseuon e-bost pellach, ac mae unrhyw negeseuon testun yn caniatáu i denantiaid ateb gyda STOP i optio allan o'r arolwg hwn.

**C. A allaf gael holiadur newydd?**

Gallwch. Nodwch yr enw a'r cyfeiriad, a'u hanfon at support@arp-research.co.uk

Fel arall, gellir cwblhau'r arolwg ar-lein yn www.arpsurveys.co.uk/yfro (cy) neu www.arpsurveys.co.uk/vale (s)

**C. A allaf gael amlen rhadbost newydd?**

Gellir anfon yr holiadur yn ôl mewn unrhyw amlen i'r cyfeiriad canlynol:

Rhadbost RTZK-RGZT-BSKU
ARP Research
Blwch SP 5928
SHEFFIELD
S35 5DN
Os yw'r cwsmer dal eisiau amlen newydd, nodwch yr enw a'r cyfeiriad, a'u hanfon at support@arp-research.co.uk

**C. Rwy'n cael trafferth cael mynediad i'r arolwg ar-lein.**

Efallai y bydd rhai preswylwyr wedi derbyn gwahoddiad i gymryd rhan drwy e-bost neu neges destun. Mae'r rhain yn cynnwys dolen unigryw a fydd yn eu mewngofnodi'n awtomatig i'r arolwg ac yn caniatáu iddynt ailddechrau o lle'r oedden nhw.

Mae cymorth technegol ar gael drwy e-bost i support@arp-research.co.uk neu dros y ffôn ar 0800 020 9564.

Mae'r arolwg ar-lein ar gael i bob tenant yn y cyfeiriad canlynol: www.arpsurveys.co.uk/yfro (cy) neu www.arpsurveys.co.uk/vale (s). Rhaid i'r tenant deipio ei god unigryw a geir ar yr holiadur papur a'r llythyr eglurhaol neu gofrestru gyda'i gyfeiriad e-bost, rhif tŷ a'i god post.

**C. Pam ydych chi wedi rhoi fy manylion cyswllt i gwmni gwahanol?**

Er mwyn sicrhau bod ein harolwg yn annibynnol, rydym wedi gofyn i ARP Research ei gynnal ar ein rhan. Mae ARP yn arbenigo mewn cynnal arolygon fel hyn ar gyfer darparwyr tai ledled y wlad. Mae hyn yr un fath â phan fyddwn yn cyflogi contractwyr i wneud gwaith atgyweirio ar ein rhan.

Ni chaniateir i ARP ddefnyddio'ch manylion cyswllt am unrhyw reswm heblaw rhedeg yr arolwg hwn a chydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Chod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad.

**C. Sut mae'r arolwg yn gyfrinachol os ydych chi'n gwybod pwy ydw i?**

Mae ARP Research yn defnyddio eich cod unigryw i dynnu eich cyfeiriad oddi ar unrhyw negeseuon atgoffa pellach os ydych eisoes wedi anfon eich holiadur yn ôl, ac i redeg y raffl wobrau. Mae unrhyw gysylltiad rhwng eich hunaniaeth a'r atebion a roddwch yn cael ei ddileu cyn gynted â phosibl gan ARP, ac ni fydd y Cyngor byth yn gweld pwy ydych chi oni bai eich bod yn rhoi eich caniatâd yn benodol.

**C. Faint o arian ydych chi wedi'i wario ar yr arolwg hwn / pam ydych chi'n gwastraffu arian ac ati?**

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gynnal yr arolwg hwn bob dwy flynedd. Mae'n bwysig iawn ein bod yn gwario arian yn ddoeth trwy ddarparu'r gwasanaethau cywir yn y ffordd gywir. Mae'r

arolwg hwn yn ein helpu i ddarganfod hyn.  Rydym yn cael cwmni ymchwil i'w gynnal i sicrhau bod yr arolwg yn annibynnol ac yn ddibynadwy.

**C. Rwyf eisiau cael manylion penodol am sut mae'r arolwg wedi'i ddylunio neu'n cael ei redeg neu eisiau siarad ag ARP Research yn uniongyrchol.**

Ffoniwch ARP Research ar Rhadffôn 0800 020 9564, neu e-bostiwch support@arp-research.co.uk